## COFNOD O BENDERFYNIAD GAN AELOD CABINET

**Penderfyniad a wnaed gan:**

Aelod Arweiniol dros Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd

**Dyddiad y penderfyniad:**

1 Ebrill 2021

**Dyddiad cyhoeddi'r penderfyniad:**

01 April 2021

**Penderfyniad:**

TREFNIADAU DERBYN I YSGOLION AR GYFER 2022-2023

Cofnodi'r penderfyniad penodol a wnaed gan yr Aelod Arweiniol yn unol â'r argymhelliad yn yr adroddiad; penderfynu ar drefniadau derbyn i ysgolion cymunedol ac ysgolion gwirfoddol a reolir yn Sir Ddinbych, ar gyfer blwyddyn academaidd 2022/2023

**Bwriad y penderfyniad:**

Mae'n ofynnol i'r holl Awdurdodau Derbyn bennu eu trefniadau derbyn ar gyfer yr ysgolion yn eu hardal. Cyngor Sir Ddinbych yw Awdurdod Derbyn yr holl ysgolion cymunedol ac ysgolion gwirfoddol a reolir yn Sir Ddinbych. Mae'r trefniadau derbyn yn cael ei pennu ar sail flynyddol, a rhaid eu cwblhau erbyn 15 Ebrill yn y flwyddyn benderfynu. Y flwyddyn benderfynu yw'r flwyddyn academaidd sy'n dechrau 2 flynedd cyn y flwyddyn academaidd y bydd y disgybl yn cael ei dderbyn i'r ysgol ynddi.

Dechreuodd y flwyddyn benderfynu ar 1 Medi 2019 ar gyfer trefniadau derbyn sy'n ymwneud â blwyddyn academaidd 2022-2023.

Ar gyfer derbyn ym mis Medi 2022, rhaid pennu'r trefniadau erbyn 15 Ebrill 2021. Mae'r trefniadau hyn yn debyg iawn i rai'r flwyddyn flaenorol heb unrhyw newidiadau mawr ar wahân i'r dyddiadau angenrheidiol.

**Rhesymau dros wneud y penderfyniad:**

Mae angen penderfynu ar drefniadau derbyniadau ysgolion cymunedol a ysgolion gwirfoddol a reolir yn Sir Ddinbych, ar gyfer blwyddyn academaid 2022-2023.

**Cysylltiadau a ddatganwyd:**

Dim cysylltiad i'w ddatgan.

**Ymgynghoriad:**

| |
|---|
| Mae'r Awdurdod wedi dilyn y Cod Derbyn i Ysgolion o ran yr ymgynghoriad sydd wedi'i gwblhau. Mae hwn yn nodi'r rhai mae'n rhaid ymgynghori â nhw'n statudol; gan gynnwys cyrff llywodraethu holl ysgolion Sir Ddinbych, yr awdurdodau esgobaethol, awdurdodau lleol cyfagos a'r Pennaeth Addysg.<br><br>Ni chafwyd unrhyw ymateb ffurfiol yn ystod yr ymgynghoriad. |

**Yr awdurdod i ddirprwyo'r penderfyniad i'r Aelod Cabinet:**

| |
|---|
| Gweler y Cynllun Dirprwyo. |